

y Gaer Interpretation Project for Powys CC	
English to Welsh translation request No: 2	
English	Cymraeg
Int 3 DL34	
Conductor's baton in ebony and silver	Baton arweinydd o eboni ac arian
Evan Evans, a blacksmith from Brecon, was the owner of this conductor's baton. He was for many years the Musical Director for the Plough Chapel and competed three times at the National Eisteddfod. The baton, in ebony and silver, was "Presented to Evan Evans by the Parents and Friends of the Children of the Brychan Juvenile Choir, August 1924."	Evan Evans, gof o Aberhonddu, oedd perchennog y baton arweinydd hwn. Roedd yn Gyfarwyddwr Cerdd yn Plough Chapel am flynyddoedd lawer a chystadlodd deirgwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. "Cyflwynwyd i Evan Evans gan Rieni a Chyfeillion Plant Côr Ieuenctid Brychan, Awst 1924."
Int 4 DL33	
Funeral bell	Cloch angladd
This bell from Llangenny, dated 1640, would probably have been used to announce local deaths and for funeral services. The Latin inscription, <i>Memento Mori</i> , translates as 'Remember you will die' as a reminder to the ringer (and those hearing the bell) to consider their own mortality.	Mae'n debyg y byddai'r gloch hon o Langenau, dyddiedig 1640, wedi cael ei defnyddio i gyhoeddi marwolaethau lleol ac ar gyfer gwasanaethau angladd. Mae'r arysgrif Lladin, <i>Memento Mori</i> , yn cyfieithu i 'Cofiwch y byddwch yn marw' i atgoffa'r canwr clychau (a'r rhai sy'n clywed y clychau) i ystyried eu marwoldeb eu hunain.
Int 5 DL33	
Victorian leather bell muffles	Distewyddion clychau lledr Fictoraidd
These bell muffles from St Mary's Church in Brecon were made by local bell-ringer Evan Walker in 1894 and used until the 1930s. Bells are often rung 'half-muffled' to give an alternate loud/soft sound for funerals and Remembrance Sunday. Traditionally, bells are rung fully muffled when the Sovereign or the church's Vicar dies.	Gwnaed y distewyddion clychau hyn o Eglwys y Santes Fair yn Aberhonddu gan y canwr clychau lleol Evan Walker ym 1894 ac fe'u defnyddiwyd tan y 1930au. Yn aml, cenir clychau yn lled-ddistaw er mwyn gwahaniaethu rhwng sain uchel/meddal ar gyfer angladdau a Sul y Cofio. Yn draddodiadol, cenir clychau sydd wedi eu distewi'n llwyr pan fo'r Sofran neu Ficer yr eglwys yn marw.
Int 6 DL35	
Eisteddfod chair	Cadair Eisteddfod
This Eisteddfod chair was awarded to Gwilym Jones at the 1924 Eisteddfod in Hermon, Pembrokeshire. Gwilym Jones, whose bardic name was Madog Fychan, was born in North Wales but came to live	Gwobrwywyd y gadair Eisteddfod hon i Gwilym Jones yn Eisteddfod 1924 yn Hermon, Sir Benfro. Ganwyd Gwilym Jones, neu Madog Fychan yn ôl ei enw barddol, yng Ngogledd Cymru ond daeth i fyw yn Aberhonddu lle bu'n

in Brecon where he worked as a dentist and became a Justice of the Peace.	gweithio fel deintydd a daeth yn Ynad Heddwch.
Int 9 DL41	
Brass corn measure	Mesurydd ŷd pres
This corn measure, used by the Borough of Brecon, represents one of several attempts over the centuries to regulate trade, control taxation and tackle fraud. Its calibration was set from a defined number of dried ' <i>corns of wheat</i> ' - kernels of a specific size. Thomas Draper and Charles Roberts were officials appointed to oversee this regulation.	Mae'r mesurydd ŷd hwn, a ddefnyddiwyd gan Fwrdeistref Aberhonddu, yn cynrychioli un o sawl ymgais dros y canrifoedd i reoleiddio masnach, rheoli trethiant a mynd i'r afael â thwyll. Gosodwyd ei raddodiadau yn unol â nifer penodedig o rawn ŷd sych – cnewyll o faint penodol. Penodwyd Thomas Draper a Charles Roberts yn swyddogion i oruchwylio'r rheoleiddio hwn.
Int 12 DL31	
King Charles' bed	Gwely Brenin Siarl
This ornate carved bed, made around 1590, is said to have been slept in by King Charles I during his visit to Brecon on 6 August 1645. Charles was trying to get support from powerful people in Brecknockshire after his defeat at the Battle of Naseby during the Civil War.	Dywedir y cysgodd Brenin Siarl I yn y gwely cerfiedig addurnedig hwn, a wnaed oddeutu 1590, yn ystod ei ymweliad ag Aberhonddu ar 6 Awst 1645. Roedd Siarl yn ceisio ennill cefnogaeth gan bobl bwerus yn Sir Frycheiniog yn sgil ei orchfygiad ym Mrwydr Naseby yn ystod y Rhyfel Cartref.
Int 27 DL32	
Oak pulpit chair	Cadair pulpud dderw
Pulpit chairs were used by ministers and preachers in Wales to address audiences in barns or in the open air. The chair, from the early 19 th century, has a rear ledge attached to it for a Bible or for speaking notes. Back in the home, the pulpit could serve as an ordinary chair.	Defnyddiwyd cadeiriau pulpud gan weinidogion a phregethwyr yng Nghymru i annerch cynulleidfaoedd mewn ysguboriau neu yn yr awyr agored. Mae gan y gadair hon o ddechrau'r 19 ^{eg} ganrif silff gefn ynghlwm wrthi ar gyfer Beibl neu nodiadau ar gyfer siarad. Yn ôl yn y cartref, gellid defnyddio'r pulpud fel cadair gyffredin.
Int 36 DL40	
Welsh oak dresser	Dresel dderw Gymreig
This is an early 19 th century Welsh dresser typical of South Wales with three shelves and five drawers. Originally, dressers were used to store kitchen items such as plates, but over time and especially in Wales they became a way of displaying and showing off tableware and ornaments for the benefit of visitors.	Dyma ddresel Gymreig o ddechrau'r 19 ^{eg} ganrif sy'n nodweddiadol o dde Cymru gyda thair silff a phum drôr. Yn wreiddiol, defnyddiwyd dreseli i storio eitemau cegin megis platiau, ond dros amser ac yng Nghymru yn enwedig, daethant yn ffordd o arddangos a dangos llestri bwrdd ac addurniadau er budd ymwelwyr.
Int 38 DL31	
Gabriel Powell, Bailiff of Brecon	Gabriel Powell, beili o Aberhonddu

<p>Gabriel Powell (1675-1735) was steward under two Dukes of Beaufort, who held extensive lands in Brecknockshire. He also became Bailiff of the corporation of Brecon in the 18th century. He is shown here holding the town charter. Buried in Brecon Cathedral, he was a strenuous defender of the rights of the town.</p>	<p>Roedd Gabriel Powell (1675-1735) yn stiward o dan ddau Ddug Beaufort, a ddaliai diroedd helaeth yn Sir Frycheiniog. Hefyd, daeth yn Feili i gorfforaeth Aberhonddu yn y 18^{fed} ganrif. Fe'i dangosir yma yn dal siatr y dref. Wedi ei gladdu yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu, roedd yn amddiffynnydd llafurus dros hawliau'r dref.</p>
<p>Int 40 DL40</p>	
<p>Blue and white enamel sign</p>	<p>Arwydd enamel glas a gwyn</p>
<p>This is a sign from Talgarth stating the times available for the Relieving Officer and Registrar, who was in charge of administering relief to the poor. James Lewis served for 33 years before retiring in 1915 aged 60. Vitreous or porcelain enamel is a layer of glass fused at high temperature on to the surface of metal.</p>	<p>Dyma arwydd o Dalgarth yn nodi'r amseroedd pan oedd y Swyddog Cofrestru a'r Cofrestrydd ar gael, a oedd yn gyfrifol am roi cymorth i'r tlodion. Gwasanaethodd James Lewis am 33 mlynedd cyn ymddeol ym 1915 yn 60 oed. Haen o wydr a doddir ar dymheredd uchel ar yr wyneb metel yw enamel gwydrog neu borslen.</p>
<p>Submitted by: Liz Bickerton</p>	<p>Date: 26/08/2019</p>
<p>Completed by:</p>	<p>Date: .././2019</p>